# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** | Alun Davidson |
| **Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Medi 2016** | Clerc y Pwyllgor |
| **Amser: 09.30** | 0300 200 6565 |
| | SeneddNHAMG@cynulliad.cymru |

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

**2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3, 4, 5, a 6 o'r cyfarfod.**

(09.30)

**3 Bil Cymru: Sesiwn friffio gan y Gwasanaeth Cyfreithiol**

(09.30-10.00) (Tudalennau 1 - 50)

**4 Blaenraglen waith: cyflwyniad i waith y Gwasanaeth Ymchwil**

(10.00 - 10.20) (Tudalennau 51 - 52)

**5 Blaenraglen waith: paratoadau ar gyfer ymweliadau â safleoedd yng Ngheredigion**

(10.20 - 10.30) (Tudalennau 53 - 54)

**6 Blaenraglen waith: paratoadau ar gyfer tymor yr hydref**

(10.30 - 10.45) (Tudalennau 55 - 58)

**Egwyl (10.45 - 11.00)**

## 7 Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad

(11.00-12.30) (Tudalennau 59 - 83)

Lesley Griffiths AC - Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Dr Christianne Glossop - Prif Swyddog Milfeddygol Cymru
Neil Hemington - Prif Gynllunydd
Matthew Quinn - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Andrew Slade - Cyfarwyddwr, Amaeth, Bwyd a'r Môr

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

1. Mae'r papur hwn yn nodi rhai o'm gweithgareddau a'm blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer portffolio'r Amgylchedd a Materion Gwledig cyn fy nghyfarfod â'r Pwyllgor ar
14 Medi. Mae'r holl benawdau a ddarperir yn rhyng-gysylltiedig ac mae'r rhaglenni a'r gweithgarwch a gyfeirnodir wedi'u llunio ar sail traws-bortffolio er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.

***Yr Undeb Ewropeaidd (UE)***

2. Mae canlyniad refferendwm yr UE wedi cael effaith sylweddol iawn ar fy mhortffolio. Mae amaethyddiaeth, pysgodfeydd, iechyd a lles anifeiliaid, yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth wedi'u cyplysu yn y bôn â pholisi, deddfwriaeth a fframwaith ariannu Ewropeaidd. Datganolir polisi amaethyddol ac amgylcheddol i Gymru ac o dan y setliad datganoli daw'r pwerau a ddychwelir o'r UE mewn ardaloedd datganoledig i Gymru. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i edrych ar y cyd-destun datblygol yn y DU a chytuno ar drefniadau cyffredin os bydd er budd gorau Cymru.

3. Rwyf am sicrhau'r diwydiant fy mod yn ymrwymedig i ddiogelu ein buddiannau gwledig ac amgylcheddol. Drwy gydweithio gallwn ymchwilio i bob cyfle a fyddai o fudd i'n sectorau ffermio, rheoli tir a bwyd.  Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol i Gymru.

4. Er bod heriau o'n blaen, fel Llywodraeth rydym yn ymrwymedig i gydweithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ffurfio rhaglenni, polisïau a rheoliadau yn y dyfodol sydd wedi'u teilwra i anghenion unigryw Cymru.

5. Cynhaliais ddau gyfarfod bord gron ar 4 a 18 Gorffennaf gyda rhanddeiliaid ar draws fy mhortffolio i drafod y goblygiadau sy'n deillio o bleidlais y refferendwm. Mae'r cyfarfodydd a gynhaliwyd hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae ymrwymiad gwirioneddol gan randdeiliaid i gydweithio i gefnogi'r trafodaethau a datblygu'r fframwaith polisi newydd ar gyfer y sectorau hyn. Ceir cyfle i nodi'r fframwaith polisi newydd drwy'r Polisi Cenedlaethol statudol ar Adnoddau Naturiol. Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid wedi cytuno ar hysbysiad ar y cyd a ddatblygwyd ac a gynigiwyd i'r grŵp fel sail ar gyfer cydweithio ar y ffordd ymlaen.

6. Er mwyn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn i gydweithio, mae fy swyddogion wedi cynnal cyfres o weithdai dros yr ychydig wythnosau diwethaf gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ystyried y risgiau a'r cyfleoedd allweddol yn ogystal â'r ffordd ymlaen i Gymru.

7. Gwerthfawrogaf y gwaith sy'n codi o'r trafodaethau hyn gan ei fod yn bwysig i ni feithrin dealltwriaeth a safbwynt cyffredin o ran y cyfleoedd, yr heriau, y risgiau a'r bygythiadau allweddol sy'n codi o ganlyniad i'r bleidlais i adael yr UE. Er mwyn gweithredu ar hyn, byddaf yn cadeirio trydydd cyfarfod bord gron yn ystod yr wythnosau i ddod.

***Fframwaith Deddfwriaethol***

8. Mae'n hanfodol bod gan Gymru, ar ôl peidio â bod yn aelod o'r UE, y gyfres lawn o bwerau i'w galluogi i gyflawni mewn ardaloedd datganoledig, er enghraifft i sicrhau dyfodol carbon isel, rheoli polisi dŵr a charthffosiaeth yn y dyfodol a rheoli'r amgylchedd morol ar draws Ardal Cymru gyfan.

9. Byddwn yn gweithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU dros y misoedd i ddod i benderfynu'n derfynol ar fanylion Bil Cymru, tra'n cydnabod nad ydym yn debygol o ddod i gytundeb ar rai materion pwysig lle rydym yn parhau i arddel barn wahanol.

10. Mae polisïau a deddfwriaeth dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu diwygio'n sylfaenol a'u cysoni i sicrhau twf a swyddi cynaliadwy, cynyddu cydnerthedd ein cymunedau a gwella iechyd a lles hirdymor ein cenedlaethau yn y dyfodol.

11. Mae'r fframwaith statudol a sefydlwyd drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu sail gadarn dros lywio opsiynau yn y dyfodol ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi'r cyd-destun hirdymor i ni. Fodd bynnag, bydd angen cryn ddadansoddiad technegol a datblygu polisïau, wedi'u llywio gan drafodaethau ar dynnu'n ôl. Gan fod tua dwy ran o dair o'r fframwaith cyfreithiol amgylcheddol cyfredol yng Nghymru yn deillio o ddeddfwriaeth y DU, mae'r dasg sydd o'n blaenau yn un sylweddol.

12. Daeth rhai o ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i rym ar 21 Mai 2016, ddau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol. Mae'r rhain yn ymwneud â Rhan 1 (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy), Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd), Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn) a rhai agweddau ar Ran 7 (draenio tir). Bydd y rhannau a'r adrannau eraill o'r Ddeddf yn gorfod cael gorchmynion cychwyn er mwyn iddynt ddod i rym.

13. Mae'r Ddeddf yn darparu nifer o ddulliau o gyflawni'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae elfennau allweddol yn cynnwys dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i adrodd ar gyflwr adnoddau naturiol (SoNaRR) bob pum mlynedd. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i ystyried y dystiolaeth hon wrth lunio'r Polisi Cenedlaethol statudol ar Adnoddau Naturiol (NNRP), a fydd yn nodi'r polisïau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol Cymru. Defnyddir Datganiadau Ardal, a lunnir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, i hwyluso'r broses o weithredu'r polisi cenedlaethol ar lefel leol.

14. Cyhoeddir SoNaRR gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Medi a'r NNRP ym mis Mawrth 2017. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn llunio Datganiadau Ardal o 2017, a chwblheir fersiwn gyntaf y datganiadau ardal erbyn 2019. Bwriadwn gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r dyletswyddau yn Rhan 1, gan gynnwys canllawiau craidd i Cyfoeth Naturiol Cymru, canllawiau i gyrff cyhoeddus ar eu rôl mewn Datganiadau Ardal a chanllawiau hefyd i awdurdodau cyhoeddus ehangach ar y ddyletswydd bioamrywiaeth.

15. Mae datblygu cynaliadwy hefyd wedi bod wrth wraidd y system gynllunio ers sawl blwyddyn. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau gael eu cymryd yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Gwnaed cynnydd rhagorol i weithredu'r Ddeddf Cynllunio, ac mae tri chwarter o'i darpariaethau bellach mewn grym yn llawn neu'n rhannol.

16. Ar ôl cyflawni'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i weithredu llawer o'r gwelliannau sy'n deillio o'r Ddeddf, cyfrifoldeb Awdurdodau Cynllunio Lleol, y diwydiant datblygu, ymgyngoreion statudol a phartïon eraill yn awr yw ymgorffori'r gwelliannau a wnaed yn gadarnhaol er mwyn cyflawni eu buddiannau yn llawn.

17. Bydd ffocws parhaus ar weithredu gweddill darpariaethau'r Ddeddf. Nodir yr amserlenni ar gyfer cyflawni yn y Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd, a'r Datganiad drafft Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror eleni.

***Ffyniannus a diogel***

18. Un o'm prif flaenoriaethau yw hyrwyddo Twf Gwyrdd i greu swyddi gweddus, carbon isel ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys buddsoddi yn y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer yr economi werdd. Drwy ein rhaglen Twf Gwyrdd Cymru rydym wedi gwella'r cyfalaf sydd ar gael drwy ddau gyfrwng buddsoddi i gefnogi amserlen o brosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Nodwyd amserlen sector cyhoeddus o bron i 200 o brosiectau, gyda gwerth Gwariant Cyfalaf (Capex) amcangyfrifedig o fwy na £450 miliwn. Buddsoddwyd tua £20 miliwn eisoes, sy'n cael ei ailgylchu er mwyn gallu buddsoddi ymhellach. Cynyddwyd y lefel hon o fuddsoddi yn 2016/17 i tua £35 miliwn er mwyn bodloni gofynion yr amserlen prosiectau.

19. Rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed twf yn y sector bwyd a diod (£7 biliwn erbyn y flwyddyn 2020), ac mae ystadegau diweddar y sector blaenoriaeth bwyd a ffermio wedi cofnodi trosiant o £6.1 biliwn yn 2015. Rhan ganolog o'r cynllun gweithredu hwn yw adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn system effeithlon o gymorth busnes i'n diwydiant bwyd a diod, yn seiliedig ar anghenion cynhyrchydd penodol a chefnogi eu datblygiad a thwf busnes.

20. Rydym wrthi'n gweithio ar gynnig twf gwyrdd bwyd i ategu Prosbectws Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i gwmnïau bwyd a diod yng Nghymru, er mwyn creu amgylchedd busnes sy'n cefnogi swyddi cynaliadwy mewn amgylchedd cystadleuol byd-eang.

21. Yng Nghymru, rydym wedi arwain y ffordd i gyflawni gweledigaeth o ran effeithlonrwydd ynni yn llwyddiannus sy'n canolbwyntio nid yn unig ar leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon ond sydd hefyd yn rhoi'r un pwys ar greu swyddi a mynd i'r afael â thlodi. Ers 2012, rydym wedi buddsoddi dros £200 miliwn i wella effeithlonrwydd ynni dros 36,500 o aelwydydd ar incwm isel yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae buddsoddi yng nghynlluniau *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru* yn parhau drwy gynllun Nyth a thrwy arian grant i Awdurdodau Lleol ar gyfer cynlluniau ar sail ardal. Rwyf hefyd yn ystyried cyflwyno cynllun newydd ar sail ardal i ddilyn Arbed 2.

22. Yn ddiweddar, cytunais ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i gyd-ariannu rhaglen fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf, sicrhau'r data a'r dadansoddiad angenrheidiol i lywio penderfyniadau polisi ac ariannol nawr ac yn y dyfodol ynghylch tai domestig ac effeithlonrwydd ynni a mesurau tlodi tanwydd.

23. Bydd cyfeiriad ynni yng Nghymru yn y dyfodol yn seiliedig ar gymysgedd ynni hyblyg ac amrywiol ar bob graddfa.  Felly, bydd rôl bwysig a chynyddol ar gyfer cynhyrchu a chyflenwi lleol, yn seiliedig ar ffynonellau adnewyddadwy, storio clyfar a rheoli grid lleol.

24. Hefyd, bydd Wylfa Newydd a datblygiad posibl Morlyn Llanw Bae Abertawe (SBTL) yn cynnig cyfleoedd sylweddol i Gymru. Rydym wedi bod yn ymwneud yn llawn â phrosiect Wylfa Newydd dros nifer o flynyddoedd.  Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Horizon Nuclear Power, Hitachi-GE, tîm cyflawni newydd ei benodi a darpar gyflenwyr allweddol i sicrhau bod pob rhan o Gymru yn elwa ar y cyfleoedd economaidd a'r buddiannau etifeddol niferus, yn ogystal â buddsoddi'n fwy helaeth yn y sector niwclear yng Nghymru.

25. Ni ellir anwybyddu pwysigrwydd y prosiect SBTL.  Ym mis Mehefin, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ar y pryd i bwysleisio pa mor bwysig ydoedd bod Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â rhanddeiliaid Cymru fel rhan o'r adolygiad annibynnol.  Rydym wedi cyflwyno ymateb llawn i'r adolygiad annibynnol, y disgwylir iddo adrodd yn ôl yn yr hydref. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Charles Hendry (Adolygwr annibynnol môr-lynnoedd llanw) ynghyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith ar 15 Medi.

26. Wrth gydnabod pwysigrwydd a buddiannau ein moroedd, rwy'n awyddus i symud ymlaen gyda'n Cynllun Morol cyntaf i Gymru gyda ffocws ar gefnogi twf glas. Rwyf am sicrhau ein bod yn cyflawni datblygu cynaliadwy yn ein hardal forol, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i'n cymunedau, ein heconomi a'n hadnoddau naturiol.

27. Bydd hyn yn arloesol i Gymru. Mae'n hanfodol cymryd yr amser i wneud hyn yn iawn. Rwyf am i'm swyddogion sicrhau y gall y cynllun ymdopi â chanlyniad Refferendwm yr UE. Mae adborth a mewnbwn gan y cyhoedd, rhanddeiliaid, ein bwrdd llywodraethu strategol a Llywodraeth y DU wedi bod yn gadarnhaol ac rwyf am adeiladu ar hyn. Wrth i'r Cynllun fynd rhagddo tuag at ymgynghoriad a chyflwyniad ffurfiol, mae angen i ni sicrhau bod y cynllun wedi ystyried y safbwyntiau a'r sylwadau a gafwyd.

28. Ar fater arall, mae rheoli perygl llifogydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae adroddiadau megis Asesiad Risg Newid Hinsawdd 2016 yn nodi'n glir fod llifogydd fel y rhai a welwyd y gaeaf hwn ond yn debygol o fynd yn fwy cyffredin.

29. Yn ystod tymor diwethaf y Llywodraeth gwnaethom fuddsoddi dros £240 miliwn mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordiroedd ledled Cymru, wedi'i gefnogi gan £47 miliwn o Ewrop, gan leihau'r risg i dros 12,000 eiddo.  Rydym wedi dechrau tymor presennol y Llywodraeth drwy ymrwymo i sicrhau bod bron £55 miliwn ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol hon er mwyn sicrhau bod cymunedau yn parhau i fod yn gryf.  Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Cymru.

30. Rydym hefyd yn cynllunio ar gyfer y perygl o erydu arfordiroedd yn y dyfodol drwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol i ddatblygu rhaglen £150 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ym maes rheoli perygl o erydu arfordirol yn dechrau yn 2018/19.  Rydym wedi nodi rhestr gychwynnol o brosiectau posibl i'w hystyried ymhellach ac wedi

darparu arian grant ar gyfer gwaith paratoadol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Darparodd nifer o'n cynlluniau diweddar fuddiannau lluosog ochr yn ochr â rheoli perygl llifogydd, fel buddiannau twristiaeth, adfywio a bioamrywiaeth ac edrychaf ymlaen at weld mwy o gynlluniau tebyg i'r rhain yn y dyfodol.

31. Ar nodyn gwahanol, mae Strategaeth Dŵr Cymru (2015) yn nodi sut y credwn y dylid rheoli ein hadnoddau dŵr i gefnogi ein cymunedau, ein natur a'n busnesau. Rydym yn ymrwymedig i greu dull mwy integredig o reoli dŵr yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

32. Mae angen i ni sicrhau bod gennym yr adnoddau a'r pwerau priodol i gyflawni amcanion ein Strategaeth. Felly, byddwn yn parhau i fynd ati i ddatganoli'r holl faterion dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Bydd hyn, fel y cadarnha Comisiwn Silk, yn sicrhau y caiff buddiannau pobl Cymru eu gwasanaethu'n well yn y dyfodol.

33. Rwy'n awyddus i adeiladu ar ein datblygiadau mawr ym maes rheoli gwastraff cynaliadwy yng Nghymru. Mae Cymru wedi cyflawni'r gyfradd ailgylchu drefol uchaf yn y Deyrnas Unedig a phe bai'n adrodd ar hyn ar wahân, hon fyddai'r bedwaredd gyfradd uchaf yn Ewrop.

34. Mae effeithlonrwydd o ran gwastraff ac adnoddau yn cynnig porth i'r economi gylchol. Hon fydd un o'm blaenoriaethau allweddol a bydd yn gyson â'n gwaith mewn ymateb i becyn yr economi gylchol a gynigir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

35. Nododd astudiaeth ddiweddar gan Sefydliad Ellen MacArthur a WRAP fuddiannau economaidd posibl o fwy na £2 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru. Mae astudiaeth bellach gan WRAP a'r Gynghrair Werdd yn rhagweld y gellir creu hyd at 30,000 o swyddi newydd yng Nghymru drwy ddatblygu economi gylchol.

36. Byddaf yn ystyried pob dull angenrheidiol, gan gynnwys deddfwriaeth, er mwyn cynnwys canran uchel o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu mewn cynhyrchion a gaffaelir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddaf hefyd yn ystyried y defnydd o gyfrifoldeb cynhyrchydd estynedig er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr a manwerthwyr yn rhannu beichiau rheoli gwastraff o aelwydydd yn fwy cyfartal. Byddaf yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol Cymru a'r sector preifat i ystyried sut y gallwn gyflawni'r nodau hyn. Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi canlyniadau adolygiad o'r patrwm casgliadau, sy'n cadarnhau dilysrwydd y dull gweithredu hwn. Mae rhifyn diwygiedig o'r patrwm wrthi'n cael ei baratoi, a byddwn yn ymgynghori arno yn ddiweddarach eleni.

37. Bydd hyn oll yn chwarae rhan yn y broses o wneud cynnydd tuag at ein nod o leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr 80% o leiaf erbyn 2050. Rydym yn datblygu'r rheoliadau i bennu'r targedau allyriadau a'r cyllidebau carbon, a fydd yn caniatáu i ni arwain y broses gyflawni, gwerthuso cynnydd yn well a rhoi sicrwydd ac eglurder o ran buddsoddi a busnes. Drwy bennu targedau a chyllidebau carbon dros dro, gallwn sicrhau lleihad graddol, parhaus a chynyddol, yn seiliedig ar gyfnod arweiniol o ran tystiolaeth a thechnoleg. Ym mis Awst, cymeradwyais y gwaith o gaffael adnoddau dadansoddol i ddatblygu tystiolaeth gadarn i ategu penderfyniadau sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru ar dargedau, cyllidebau a'r polisïau a fydd yn sicrhau proses ddatgarboneioddio effeithiol.

38. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi tueddu lleihau o'r sector amaethyddol ers 1990. Mae Grŵp Diwydiant Newid Hinsawdd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r byd academaidd, cyrff diwydiant, sefydliadau amgylcheddol a Llywodraeth Cymru, yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun gweithredu cadarn ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn y diwydiant ffermio. Bydd llwyddiant Glastir, ein cynllun rheoli tir cynaliadwy, yn ffocws allweddol.

39. Felly, rwy'n ymrwymedig i'r weledigaeth strategol hirdymor, a ddatblygwyd gyda chyrff diwydiant, sy'n anelu at wneud y diwydiant amaethyddol yn ffyniannus, cadarn, mwy arloesol ac yn un a fydd yn fuddiol i lesiant Cymru nawr ac yn y dyfodol.

40. Mae Grŵp Partneriaeth Fframwaith Strategol Amaethyddiaeth wrthi'n datblygu Rhaglen Mapio strategol ar gyfer Amaethyddiaeth yng Nghymru i gyflawni'r weledigaeth hon. Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae angen i'r Grŵp Partneriaeth gynnal hyder y diwydiant a chredaf fod gwell cyfle iddo gyflawni hyn os sicrheir bod y diwydiant yn ganolog i'r broses o'i sefydlu.

41. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, mae canlyniad refferendwm yr UE yn cael effaith sylweddol iawn ar y diwydiant amaethyddol. Mae'r Prif Weinidog wedi egluro bod angen i ni gael 'sicrwydd llawn' gan Lywodraeth y DU y bydd y cyllid yn parhau ar gyfer rhaglenni presennol yr UE hyd at 2023.

42. Rydym yn cynnal trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol y diwydiant i ddatblygu cynllun grant a fyddai'n targedu buddsoddiadau llai ar y fferm fel rhan o'r fenter strategol ehangach i lywio newid trawsffurfiol ar draws sectorau.

43. Ar fater arall, mae dros 99% o ffermwyr Cymru wedi cael taliad Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS). O 11 Awst ymlaen, rydym wedi rhoi taliadau BPS i fusnesau fferm gwerth £188,431,796.99. Yr hawlwyr BPS hynny sy'n weddill yw'r achosion mwyaf cymhleth neu hawliadau trawsffiniol. Mae'r BPS yn ymgorffori nifer o ofynion a meini prawf newydd o gymharu â Chynllun y Taliad Sengl, a ddisodlodd.

44. Unwaith eto mae Cymru wedi perfformio'n well na Lloegr a'r Alban wrth roi taliadau i fusnesau fferm a Chymru yw'r unig wlad yn y DU i gyflawni 100% o ran cyflwyniadau ar-lein Ffurflen y Cais Sengl yn 2016. Mae Taliadau Gwledig Cymru yn benderfynol o adfer ei berfformiad yn y gorffennol o ran taliadau, sef cychwyn taliadau BPS 2016 ym mis Rhagfyr i nifer fawr o hawlwyr a thalu'r rhan fwyaf o'r hawliadau yn gynnar yn y ffenestr talu.

45. Rwyf am fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i lywio rhaglenni, polisïau a rheoliadau yn y dyfodol sydd wedi'u teilwra'n benodol i anghenion amaethyddol unigryw Cymru ac sy'n gysylltiedig â chanlyniadau amgylcheddol lle y bo'n bosibl.

**Iach ac egnïol**

46. Rwy'n ymrwymedig i wella iechyd a lles drwy wella amgylcheddau lleol a mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael, yn ogystal â datblygu rhaglen rhagnodi cymdeithasol i wella iechyd drwy weithgarwch ym myd natur.

47. Rwy'n awyddus i sicrhau bod cyfleoedd niferus i bobl gael mynediad i'r awyr agored. Bydd angen ystyried yn llawn yr amrywiaeth o faterion a godwyd gan yr adolygiad diweddar o fynediad i'r awyr agored cyn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen. Mae meysydd allweddol i'w hystyried yn fanylach yn cynnwys gwella'r ffordd rydym yn cofnodi hawliau tramwy cyhoeddus, adolygu'r hawliau sy'n gysylltiedig â llwybrau cyhoeddus ac ardaloedd mynediad, egluro hawliau sy'n gysylltiedig â mynediad i ddŵr ac ystyried cod statudol. Mae mynediad cyhoeddus i fannau gwyrdd o ansawdd lle mae pobl yn byw yn allweddol i wella iechyd meddyliol a chorfforol pobl.

48. Ar 13 Medi, byddaf yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar ansawdd aer lleol a rheoli sŵn. Ar yr un pryd â'r ymgynghoriad hwn, mae fy Adran yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill i ganfod ffyrdd o wella polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n ymwneud â llygredd aer a sŵn.

49. Er mwyn iechyd y cyhoedd, mae angen canolbwyntio nid yn unig ar gydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol mewn ardaloedd â phroblemau o ran llygredd aer, ond hefyd ar ostwng lefelau llygredd aer a sŵn cyfartalog ar gyfer y boblogaeth gyfan. Mae'r dangosydd cenedlaethol ar gyfer ansawdd aer o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a ddiffinnir fel y crynodiad cyfartalog o nitrogen deuocsid lle mae pobl yn byw, yn ategu'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn hyn o beth. Byddwn yn cyhoeddi mapiau sŵn wedi'u diweddaru ar gyfer prif ffyrdd yng Nghymru yn 2017.

50. Y nod fu sicrhau bod gan Gymru anifeiliaid cynhyrchiol iach, gydag ansawdd bywyd da; bod pobl yn ymddiried yn y ffordd y caiff bwyd ei gynhyrchu; ac y caiff iechyd y cyhoedd ei ddiogelu. Ym mis Gorffennaf, roeddwn yn falch o gyhoeddi ail Gynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid blynyddol Cymru sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf a chamau gweithredu allweddol ar gyfer ei gyflawni.

51. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith ar y Rhaglen Dileu TB ledled Cymru. Mae sawl elfen i'n dull gweithredu gan gynnwys profion blynyddol, mesurau bioddiogelwch caeth, rheolaethau a mentrau symud cynhwysfawr. Yn ystod yr hydref byddaf yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Lawn lle byddaf yn amlinellu rhaglen newydd ar gyfer TB a fydd yn gwneud mwy i ddileu'r clefyd hwn drwy ddefnyddio pob adnodd sydd ar gael i ni a mynd i'r afael â phob ffynhonnell haint.

52. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewn ymateb i adborth a gafwyd gan y diwydiant ffermio i gyflwyno dewis amgen yn lle'r prosiect cyfredol i symleiddio rheolaethau'r Cyfnod Cadw Chwe Diwrnod. Bydd y trefniadau newydd arfaethedig yn lleihau'r cymhlethdod i ffermwyr drwy gynnig eithriad cyffredinol ar gyfer Unedau Cwarantîn yn lle eithriadau ar gyfer Unedau Ynysu ac Awdurdodau Unig Ddeiliaid. Bydd hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd tra'n cynnal rheolaethau symud er mwyn helpu i atal y clefyd rhag lledaenu.

**Uchelgeisiol a dysgu**

53. Mae Cyswllt Ffermio yn parhau i fod yn rhan hollbwysig o'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau ffermio, bwyd a choedwigaeth i'w helpu i ddod yn gryfach, yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac mewn sefyllfa well i ffynnu mewn amgylchedd sy'n canolbwyntio'n gynyddol ar y farchnad.

54. Mae'r rhaglen yn darparu dull effeithiol o drosglwyddo gwybodaeth i ysgogi a helpu i newid ymddygiad a sicrhau bod cymaint â phosibl yn manteisio ar y syniadau newydd. Ers 1 Awst, mae 4,558 o fusnesau ac 8,831 o unigolion wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen newydd.

55. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at gynigion Panel Cynghori Cymru ar Amaethyddiaeth ar gyfer gorchymyn cyflogau amaethyddol newydd a ddisgwylir yn ddiweddarach eleni. Bydd sicrhau lefelau gofynnol teg o gymorth a gwella datblygiad sgiliau yn cyfrannu'n uniongyrchol at les pawb sy'n gweithio yn y diwydiant amaeth a'n cymunedau gwledig. Mae'r Panel yn gweithio i sefydlu is-bwyllgor parhaol i roi cyngor arbenigol ar Ddatblygu Sgiliau a Hyfforddiant ym maes amaethyddiaeth. Disgwylir iddo gynnal ei gyfarfod cyntaf yn ddiweddarach eleni.

**Lesley Griffiths AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Medi 2016